9 Rhagfyr 2020

Annwyl Riant/ofalwr,

Hoffwn yn y lle cyntaf ddiolch o galon i chi fel rhieni a gofalwyr am bob cefnogaeth dros y pythefnos heriol diwethaf. Rydym wedi wynebu cynnydd mewn achosion o Covid-19 ymhlith disgyblion a staff, ac o'r herwydd, bu'n rhaid i nifer fawr o ddisgyblion - 1,000 erbyn hyn - hunan-ynysu. Llwyddwyd i gynnal y dysgu o hirbell ar gyfer y blynyddoedd cyfan oedd oddi ar y safle; gwnaed pob ymdrech i gynnal y dysgu cyfunol pan fu rhai disgyblion y bysiau oddi ar y safle am gyfnodau. Bu cynnydd mawr yn nifer y staff sydd naill ai yn dioddef o Covid-19 neu sydd yn gorfod hunan-ynysu ar gais TTP. Mae pob un o'r staff dysgu sy'n hunan-ynysu heb symptomau (a staff sydd dal yn dost!) yn parhau i ddarparu gwaith o hirbell i ddisgyblion a myfyrwyr. Ar hyn o bryd (bore Mercher), mae 29 aelod o staff yn absennol o'r Ysgol. Yn wyneb hyn, rydym yn ystyried ein hopsiynau fel Ysgol, gan ein bod yn rhwym o gynnal safle sy'n iach ac yn ddiogel i bawb, ac mae staffio digonol yn rhan o'r ystyriaethau fan hyn, yn wyneb dychweliad nifer fawr o ddisgyblion dros y dyddiau nesaf.

Diolch yn fawr iawn i chi am atgyfnerthu negeseuon yr Ysgol o ran glynu at safonau hylendid golchi dwylo a thisian, gwisgo mygydau ym mhob sefyllfa ar y safle namyn yr ystafell ddosbarth, cadw pellter, a dilyn ein llwybrau unffordd ar y safle.

Am y tro, hoffwn gadarnhau trefniadau dychwelyd i safle'r ysgol dros y diwrnodau nesaf ar gyfer Blynyddoedd Ysgol cyfan sydd wedi gorfod hunan-ynysu. Mae'r trefniadau yn seiliedig ar y rheidrwydd i gynnal diogelwch uchel ar safle'r ysgol i holl ddysgwyr a staff ynghyd a'r flaenoriaeth o sicrhau dilyniant addysg dysgwyr. Sylweddolwn y golyga hyn y bydd rhai plant ar fysys penodol yn gorfod cadw bant o'r safle am fwy na 14 diwrnod, ond mae trefn debyg i hon yn galluogi'r Ysgol i baratoi gwersi ystyrlon ar y safle ac o hirbell.

Blwyddyn 9 Nôl ar 10/12/2020
Blwyddyn 11 Nôl ar 11/12/2020
Blwyddyn 8 Nôl ar 16/12/2020
Blwyddyn 7 Nôl ar 18/12/2020

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Blwyddyn 10 – dychwelyd yn ôl dyddiadau hunan-ynysu y bysiau dros yr wythnos nesaf. Awgrymir bod y Chweched Dosbarth yn cadw mewn cysylltiad â'u hathrawon wrth i'w gwersi nhw gael eu ffrydio o hirbell tan ddiwedd tymor.
**Wrth reswm, mae nifer o ddisgyblion unigol yn gorfod hunan-ynysu am gyfnodau hirach ar gais uniongyrchol TTP.

Ymddiheuriadau os yw hyn rywfaint yn wahanol i negeseuon y gorffennol, ond mae'r tirlun wedi newid, a bu'n rhaid ymateb i hynny.

Mae nifer ohonoch wedi cysylltu â mi yn uniongyrchol oherwydd eich bod yn bwriadu cadw eich plant i ffwrdd o'r Ysgol hyd at Nadolig, am resymau sy'n cynnwys yr awydd i amddiffyn aelodau bregus o fewn eich teuluoedd dros yr Ŵyl. Rwy wedi gwneud yn glir i'r rhieni hyn bod yr Ysgol yn deall ac yn cydymdeimlo'n llwyr gyda chi wrth i chi wynebu penderfyniadau anodd. Er na all yr Ysgol roddi caniatâd swyddogol i'r absenoldebau hyn, ni fydd 'cosb' am beidio â mynychu'r safle dros y dyddiau nesaf, yn unol â llythyr y Cyfarwyddwr Addysg i rieni ddiwedd wythnos ddiwethaf. Bwriadwn drial ein gorau i gynnal y dysgu o hirbell ar gyfer y disgyblion hynny.

Rydym wedi bod mewn trafodaethau cyson gyda'r Corff Llywodraethol dros y dyddiau diwethaf – maen nhw yn llwyr ymwybodol o'r hyn yr ydym yn ei benderfynu - a diolchwn iddynt am eu cyngor ac arweiniad.

Diolch i chi am eich cydweithrediad a'ch amynedd yn y sefyllfa heriol bresennol.

Dafydd Jenkins
Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

9 December 2020

Dear Parent / Carer,

First of all I would like to sincerely thank you as parents and carers for all your support over the last challenging fortnight. We have faced an increase in cases of Covid-19 among pupils and staff, and as a result, a large number of pupils - now 1,000 - have had to self-isolate. The distance learning has been maintained for all the years off site; every effort has been expended to maintain the learning on site and off-site for different pupils isolating for different reasons. There has been a large increase in the number of staff who suffer from Covid-19 or have to self-isolate at the request of TTP. All symptom-free self-isolating teaching staff (and some who are ill!) continue to provide work remotely for pupils and students. At present (Wednesday morning), 29 members of staff are absent from the School. In light of this, we are considering our options as a School, as we are bound to maintain a site that is healthy and safe for everyone, and adequate staffing is an important component of our considerations here, as we contemplate the return of pupils over the next few days.

Thank you very much for reinforcing the School's messages on adhering to hygiene standards for hand washing and sneezing, wearing masks in all situations on site except the classroom, maintaining a social distance, and following our one-way system on-site.

For the time being, I would like to confirm arrangements for the return of whole School Years who have had to self-isolate, to the school site over the next few days. The arrangements are based on the imperative to maintain the safety of all learners and staff on the school site together with the ensuring the continuity of learning. We realise that this means that some children on certain buses will have to stay off site for more than 14 days, but doing so enables the School to prepare meaningful lessons both virtually and on site.

Year 9	Back on 10/12/2020
Year 11	Back on 11/12/2020
Year 8	Back on 16/12/2020

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Year 7 Back on 18/12/2020
Year 10 - return over the next week, depending on the self-isolating dates of the buses. It is suggested that the Sixth Form keep in touch with their teachers as their lessons are streamed remotely until the end of term.
** We realise that many individual pupils will be isolating for longer periods at the direct request of TTP.

Apologies if this differs from past messages, but the landscape has changed, and we have had to respond to that.

Many of you have contacted me directly because you intend keeping your children away from school until Christmas, for reasons that include the desire to protect vulnerable members of your family over the festive period. I have made it clear to these parents that the School fully understands and empathises with you as you face these difficult decisions. Although the School cannot give official permission for these absences, there will be no 'penalty' for not attending school over the next few days, according to the Director of Education's letter to parents at the end of last week. We plan to try our best to maintain meaningful distance learning for these pupils.

We have been in regular contact with the Governing Body over the past few days – they are party to thr important decisions we have to face - and we thank them for their advice and guidance.

Thank you for your co-operation and patience in the current challenging situation.

Dafydd Jenkins
Headteacher

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk